






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o Gyngor

5 Mai 2020



Llywodraeth Cymru: Crynodeb o Gyngor y Gell Cyngor Technegol (05/05/20)

Y Pwyntiau Allweddol

- Mae'r grŵp wedi ystyried tystiolaeth newydd am Drosglwyddo COVID-19 mewn plant ysgol ac am y driniaeth Remdesivir.
- Mae mesuriadau gan GIG Cymru a'r Monitor Data yn dangos bod yr haint yn cilio'n araf yng Nghymru a bod pobl, at ei gilydd, yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar gadw pellter cymdeithasol.
- Mae yna sawl Brechlyn posibl sy'n cael eu hystyried yn rhai hyfyw, ac mae Cymru yn cael ei chynrychioli ar Dasglu newydd y DU ar Frechlynnau.
- Mae tystiolaeth bod y feirws yng Nghymru yn tarddu o gynifer o linachau gwahanol â'r feirws yn Lloegr.

Trosglwyddo mewn Plant Ysgol

- Mae'n bosibl bod plant iau yn llai tueddol o gael eu heintio (lefel isel o hyder) ond yn llai tueddol o gael clefyd clinigol (lefel gymedrol i uchel o hyder) nag oedolion; nid oes digon o dystiolaeth i benderfynu a yw hynny hefyd yn wir yn achos plant hŷn.
- Nid yw'n glir a yw'r haint yn llai tueddol o gael ei drosglwyddo gan blant nag oedolion, ond mae rhywfaint o dystiolaeth newidiol sy'n dangos y gallai hynny fod yn wir yn achos plant iau (hyd at 11-13 oed) (lefel isel o hyder).
- Am amryfal resymau, mae'r risg sy'n gysylltiedig â'r opsiynau ailagor yn is ar gyfer plant iau nag ar gyfer plant hŷn.
- Mae'r effeithiau anuniongyrchol a fyddai'n gysylltiedig ag ailagor ysgolion (pa opsiwn bynnag a ddewisir) yn debygol o gael mwy o effaith ar drosglwyddo'r haint na'r ysgolion eu hunain (e.e. ailagor yng nghyswllt pobl yn dychwelyd i'r gwaith, newid ymddygiad).
- Mae'r Gell Cyngor Technegol yn cytuno â chynghor y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) y dylid cyflwyno ffyrdd effeithiol o fonitro'r effaith a gâi unrhyw newid mewn ysgolion, a mesurau i ymateb i achosion mewn ysgolion.

Ymchwil

- Ar hyn o bryd, mae 1199 o gleifion o Gymru wedi cael eu recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys ar COVID-19 (mae cyfanswm o 8 o astudiaethau iechyd cyhoeddus brys wedi dechrau ac wrthi'n recriwtio yng Nghymru).

Genomeg

- Erbyn hyn, mae'r haint wedi tarddu o gynifer o linachau unigol yng Nghymru ag y mae yn Lloegr, felly mae mwy o bwyntiau hadu nag oedd ar y dechrau.

Therapiwteg

- Mae swyddogion a chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael gwahoddiad i ymuno â Thasglu Seroleg a Diagnosteg y DU.
- Mae prif ganlyniadau treial a gynhaliwyd ar Remdesivir yn yr Unol Daleithiau yn awgrymu bod arwydd ystadegol arwyddocaol o effeithiolrwydd na welwyd mewn treial llai a gynhaliwyd yn Tsiena. Nid yw canlyniadau llawn y treial a gynhaliwyd yn yr Unol Daleithiau ar gael eto. Nodwyd hefyd fod heriau o ran gweithgynhyrchu Remdesivir.

Brechlynnau

- Mae rhyw 200 o frechlynnau posibl ledled y byd. O blith y rheini, mae rhyw 70 yn rhai credadwy a llai na dwsin ohonynt yn rhai y gellid ystyried eu bod yn geffylau blaen.
- Sefydlwyd Tasglu Brechlynnau ar gyfer y DU. Mae Cymru yn cael ei chynrychioli gan Lywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd.

Perfformiad y GIG

- Mae rhagolygon tymor byr y Grŵp Gwyddonol ar Ffliw Pandemig – Modelu (SPI-M), a gafodd eu hystyried ar 4 Mai, yn dangos bod nifer y gwelyau dwys ac ynddynt gleifion sy'n dioddef o COVID-19 yn debygol o barhau fwy neu lai'n ddigyfnawid, sef 100 ± 80 o welyau o'r fath, tan 16 Mai.
- Gan ganiatáu ar gyfer cyfanswm o 70 yn rhagor o gleifion nad ydynt yn dioddef o COVID-19 neu yr amheuir eu bod yn dioddef ohono, byddai hynny'n awgrymu nad yw'n debygol y byddai galw yn y dyfodol agos am fwy o welyau na'r cyfanswm sydd ar gael mewn unedau gofal dwys yng Nghymru (ar 3 Mai, roedd 390 o welyau L3 ar gael mewn unedau gofal dwys).
- Yn ôl adroddiadau'r ysbytai, mae nifer y cleifion â COVID-19 mewn unedau gofal dwys yng Nghymru wedi bod yn gostwng ers 20 Ebrill. Ar sail data Byrddau Iechyd unigol, ymddengys fod cyfradd y gostyngiad yn arafu, gan gyrraedd lefel sefydlog bosibl o 75 ± 15 o gleifion y cadarnhawyd eu bod yn dioddef o COVID-19 mewn unedau gofal dwys yng Nghymru.
- Mae'r gwerthoedd dyddiol cyfartalog dros gyfnod o 7 diwrnod ar gyfer cyfanswm yr achosion, y derbyniadau cysylltiedig â COVID-19 i ysbytai, y derbyniadau cysylltiedig â COVID-19 i unedau gofal dwys, nifer y gwelyau sy'n llawn mewn unedau gofal dwys L3, nifer y cleifion cysylltiedig â COVID-19 a ryddhawyd o'r ysbyty, a nifer y marwolaethau yr hysbysodd Iechyd Cyhoeddus Cymru amdanynt, i gyd yn dangos bod y sefyllfa wedi gwella'n gyffredinol o gymharu â'r 7 diwrnod blaenorol.
- Ar 5 Mai, o blith y 4,983 o welyau sy'n llawn yn GIG Cymru (54% o'r cyfanswm sydd ar gael), mae 8% ohonynt yn gleifion y cadarnhawyd eu bod yn dioddef o COVID-19 ac mae 4% arall yn gleifion yr amheuir bod COVID-19 arnynt ac sy'n disgwyl cael cadarnhad o hynny.

Cadw at y mesurau cyfredol

- Yn ôl yr amcangyfrifon, mae rhwng 60% a 70% yn cadw at y mesurau cyfredol. Mae cefnogaeth gref o hyd i'r mesurau yng Nghymru (ac yn y DU), ac mae'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn parhau i ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol.
- Mae arwyddion bod y cyhoedd, o bosibl, yn dechrau blino ar y cyfyngiadau symud ac nad ydynt yn cydymffurfio i'r un graddau. Mae'r data diweddaraf o arolygon yn dangos eu bod yn dal i gydymffurfio â'r canllawiau, ond bod arwyddion nad ydynt yn gwneud hynny i'r un graddau.
- Mae'r data ar symudiadau ar lefel y DU yn dangos bod pobl yn symud mwy, ac mae data symudedd Google ar gyfer Cymru yn fwy cymysg (ond dim ond ar gyfer y cyfnod hyd at 17 Ebrill y mae'r data hynny).
- Gan fod poblogaeth Cymru yn hŷn, mae'n bosibl bod ganddi ychydig o fantais am fod pobl hŷn yn fwy parod i gydymffurfio â'r mesurau, ond mae'r ffaith bod gan Gymru ganran uwch o weithwyr allweddol yn gwrthbwysu hynny. Yn ôl canlyniadau arolwg wythnosol a gynhelir ymhlith 500 o unigolion yng Nghymru, mae gostyngiad bach yn y lefelau cydymffurfio â'r mesurau, ond mae'n rhy gynnar i ddweud eu bod yn gwanhau.

Profi ac Olrhain

- Dylai amcanion system profi ac olrhain gynnwys ynysu cynifer o bobl â phosibl sydd wedi dod i gysylltiad â'r clefyd, gan wneud hynny mor gyflym â phosibl, a lleihau nifer y canlyniadau anghywir (h.y. ynysu unigolion yn ddiangen oherwydd nad yw'r achos cyfeirio yn gysylltiedig â COVID-19).
- Byddai gofyn cysylltu ag o leiaf 80% o'r rheini y mae achos cyfeirio wedi bod mewn cysylltiad â nhw er mwyn i unrhyw system fod yn effeithiol. Mae angen lefel uchel o ufuddhau i geisiadau i ynysu er mwyn i system fod yn effeithiol.
- Mae lefel uchel o hyder ei bod yn ddymunol i bobl sydd wedi dod i gysylltiad ag unigolion sydd â COVID-19 gael eu hynysu o fewn 48 awr. Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn deall pa mor ymarferol yw hynny a dylid hefyd edrych ar brofiad rhyngwladol yn hynny o beth.
- Yn ddelfrydol, dylai'r profion gael eu cynnal mor gyflym fel mai dim os yw'r achos cyfeirio wedi cael canlyniad positif y dylai pobl sydd wedi dod i gysylltiad ag ef fod yn ynysu. Y nod i anelu ato yw datblygu'r gallu i brofi achosion cyfeirio mewn llai na 24 awr.
- Mae'r Gell Cyngor Technegol yn cytuno â chyngor SAGE, sef, yn ystod cam cychwynnol y rhaglen brofi ac olrhain, dylid gofyn i bobl sydd wedi dod i gysylltiad â'r achos cyfeirio ynysu eu hunain cyn gynted ag y nodir pwy ydynt (h.y. ar sail gwybodaeth bod ganddynt symptomau), hyd yn oed os nad yw canlyniadau'r profion ar yr achos cyfeirio ar gael eto. Gallai'r bobl sydd wedi dod i gysylltiad â'r achos cyfeirio roi'r gorau i ynysu eu hunain os bydd y profion yn dangos bod yr achos cyfeirio yn negyddol.
- Nid oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i benderfynu a fyddai cynnal profion ar bobl sydd wedi dod i gysylltiad ag achosion cyfeirio yn cael effaith sylweddol ar yr

epidemig o gymharu ag ynysu yn unig (ac nid yw'n glir ychwaith pryd y dylid profi er mwyn osgoi canlyniadau negyddol anghywir).

- Ystyrir ei bod yn hanfodol cyrraedd sefyllfa cyn tymor fflw yr hydref/gaeaf lle bydd canlyniadau profion ar achosion cyfeirio ar gael ymhen < 24 awr, a hynny oherwydd y bydd yn bosibl na fydd COVID-19 ar nifer mawr o'r rheini a fydd yn dweud bod ganddynt symptomau.